

Plismona a Gweithio mewn Partneriaeth yng Nghymru

"Mae popeth yn gysylltiedig â phopeth arall"

DIBEN

Amlinellu rhai o'r trefniadau partneriaeth sydd ar waith yng Nghymru, ar lefel leol, ar lefel yr heddlu ac ar lefel Cymru gyfan, gan ddangos sut mae plismona yn ymwneud yn rhagweithiol â meysydd asiantaethau datganoledig ac asiantaethau heb eu datganoli.

CEFNDIR

Yn ei hanfod, mae plismona yn rhywbeth lleol ei natur, ac er nad yw cyfrifoldeb deddfwriaethol na gweinidogol am blismona wedi cael ei ddatganoli i Gymru, mae'r heddlu yn gweithredu mewn amgylchedd datganoledig lle mae'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau sylweddol wedi cael ei ddirprwyo i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau tra bod y Prif Gwnstabl yn gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol.

Mae'r gofynion mewn perthynas â phlismona wedi newid. Ers 1998, mae plismona wedi bod wrth wraidd gwaith partneriaeth i sicrhau diogelwch yn y gymuned, ac mae'r heddlu yn cyfrannu'n sylweddol at Dimau Troseddau Ieuenctid. Amcangyfrifir bod tua 70% i 80% o alwadau bellach yn ymwneud â materion nad ydynt yn drosedd, gan gynnwys pobl sy'n agored i niwed ac iechyd meddwl. Mae ymdrin â throseddau difrifol a chyfundrefnol a therfysgaeth hefyd yn gysylltiedig â phlismona'n lleol a gweithio mewn partneriaeth, a gwelwyd datblygiadau sylweddol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal, lle mae gweithio mewn partneriaeth yn lleol wedi bod yn thema ganolog.

TRAFODAETH

Weithiau, mae teimlad nad yw partneriaid yn deall yn llwyr y cyfraniad sy'n cael ei wneud gan yr heddlu i lesiant a diogelwch ein cymunedau yng Nghymru. Ar y naill law, gan nad yw cyfrifoldeb deddfwriaethol na gweinidogol am blismona wedi cael ei ddatganoli, gall cyfraniad yr heddlu a'r pwysau arno gael eu diystyru. Ar y llaw arall, mae'r farn "draddodiadol" bod plismona'n golygu goleuadau glas ac ymdrin â phobl feddw yn aml yn cael ei hatgyfnerthu drwy'r ffordd y mae gweithgarwch yr heddlu yn cael ei bortreadu mewn ffilmiau ac ar y teledu. Mewn gwirionedd, mae plismona yng Nghymru yn agosach nag erioed, yn fwy na thebyg, at ddwy egwyddor Syr Robert Peel ...

- Prif gyfrifoldeb yr heddlu yw atal troseddau (mae plismona'n llwyddiannus os nad yw troseddau'n cael eu cyflawni, nid am fod gweithgarwch yn mynd rhagddo)
- Yr heddlu yw'r gymuned, a'r gymuned yw'r heddlu (mewn geiriau eraill, mae'n rhaid i'r heddlu ddeall a bod wrth wraidd y gymuned)

Yn aml, yr heddlu yw'r asiantaeth i alw arni pan fetho popeth arall, yn enwedig gyda'r nos ac ar y penwythnos, ac mae disgwyl iddo ymateb bron bob tro, ond mae'r gwasanaethau goleuadau glas eraill yn dueddol o chwarae rolau sydd wedi'u diffinio'n gliriach.


Iechyd meddwl

Ym maes "iechyd meddwl" y gwelir hyn yn fwyaf amlwg. Yn ôl staff rheng flaen, materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl sy'n galw ar eu hamser fwyaf, ac mae oedi sylweddol wrth geisio penderfyniad ynghylch unigolyn sy'n cael ei drosglwyddo i gyfleusterau iechyd meddwl. Yn dilyn y Concordat Gofal mewn Argyfwng, a lansiwyd yn y Senedd, mae defnydd o bwerau Adrannau 135 ac 136 wedi lleihau'n sylweddol, ond mae pryderon mai cyfyngedig yw'r opsiynau sydd ar gael i'r rhai nad oes angen gofal seiciatrïg arnynt yn benodol. O'r dechrau, teimlwyd na ddylid ystyried hyn yn "broblem plismona" ond yn broblem "unlle arall i fynd". Mae trefniadau brysbennu yng nghanolfannau rheoli'r heddlu neu ar y stryd yn cael eu treialu, ac mae Grŵp Goruchwyllo Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru yn dangos parodrwydd yr heddlu, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â phroblemau anodd eu trin i bob golwg.

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Mae ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru a fesurodd effaith pedwar profiad niweidiol yn ystod plentyndod neu fwy wedi dylanwadu'n sylweddol ar blismona yng Nghymru ac wedi rhoi tystiolaeth syfrdanol o fanteision posibl i iechyd a llesiant a'r broses o leihau niwed sy'n deillio o atal profiadau o'r fath, a lleddfau eu heffaith, sydd wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

GALLAI ATAL PROFIAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD I GENEDLAETHAU'R DYFODOL OSTWNG LEFELAU:



Rydym yn cefnogi mentrau sydd yn barod yn cynnwys Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Os yw'n rhy hwyr i'w atal nid yw'n rhy hwyr i gymryd camau cadarnhaol prydlon.

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r pump cyntaf yn uniongyrchol berthnasol i blismona, ac mae'r cytundeb partneriaeth rhwng Heddlu De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gydweithio wedi cael ei ehangu i bob un o'r pedwar heddlu ac i asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r ymchwil i brofiadau o'r fath wedi tanio dychymyg Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr yr heddlu, ac mae prosiect peilot yr heddlu ym Maesteg yn dangos manteision sylweddol cydweithio ar sail y profiadau hyn i'r heddlu, llywodraeth leol ac asiantaethau partner eraill.

Mae hynny wedi arwain at gael grant o £6.8 miliwn gan Gronfa Drawsnewid yr Heddlu ar gyfer menter Cymru gyfan gan yr heddlu yn y maes hwn, a bydd y rhaglen yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Llywodraeth Cymru a gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn goruchwyllo'r rhaglen, sy'n dod ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau plismona a Llywodraeth Cymru ynghyd, yn ogystal ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth leol (CLILC). Mae awydd gwirioneddol i drawsnewid y ffordd rydym yn mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod dros y ddwy flynedd nesaf, gan gredu y bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â throseddu, iechyd a llesiant a'u lleihau.

Byrddau/Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Roedd y toriadau o 2010 ymlaen wedi effeithio'n sylweddol ar waith Partneriaethau Diogelwch Cymunedol o dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a cholodd yr heddlu a llywodraeth leol yr arbenigedd a'r gallu dadansoddol a oedd yn cefnogi trefniadau cydweithio. Yn gyffredinol, cadwodd y Comisiynwyr eu cymorth ariannol, ond aeth adnoddau yn broblem sylweddol. Pan gyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y cynlluniau i adnewyddu diogelwch cymunedol yng Nghymru, croesawodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiliaid y cyfle i fod yn rhan o'r Grŵp Trosolwg. Roedd hwn eisoes yn faes allweddol o ran gweithio mewn partneriaeth, gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau yn rhoi arian diogelwch cymunedol i helpu i dargedu materion lleol drwy weithio mewn partneriaeth. Rydym yn croesawu'r ffaith bod model mwyfwy cyson lle mae diogelwch cymunedol yn cyd-fynd yn glir â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac felly'n galluogi gweithgarwch plismona i gefnogi a llywio mentrau eraill. Cytunodd pob Comisiynydd i arwain y gwaith o adnewyddu trefniadau diogelwch cymunedol lleol drwy weithio gyda'r Prif Gwnstabl, llywodraeth leol a phartneriaid, ac mae ymdrechion i ddatblygu gallu dadansoddol i lywio "archwiliadau sylfaenol" o ddiogelwch cymunedol.

Plismona yn y gymdogaeth

Er gwaethaf colli tua thraean o'r arian sy'n cael ei neilltuo i blismona drwy grant Swyddfa'r Cabinet i'r heddlu ers 2010, nid yw heddluoedd Cymru wedi camu'n ôl o blismona yn y gymdogaeth a mabwysiadu "model ymateb yn unig". Maent yn gweithio mewn partneriaeth yn fwy nag erioed, gan ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a chymryd camau cadarnhaol yn gyflym.

Mae cyfraniad Llywodraeth Cymru o 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol wedi bod yn un o elfennau hollbwysig ein gwaith o ymgysylltu â chymunedau lleol. Mae cynghorwyr lleol a phartneriaid eraill yn aml yn sylwi ar werth y gwaith ymgysylltu hwn yn lleol, ond mae'n ymwneud yn uniongyrchol â rhai

materion mawr, megis ymgysylltu â chymunedau Mwslimaidd a rhoi sicrwydd iddynt a chynyddu'r gallu i "ddatrys problemau" yn y gymuned leol.

Ymgysylltu'n strategol

Yr enghraifft fwyaf amlwg o ymgysylltu'n strategol yw'r berthynas â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er na ellir mynnu bod yr heddlu'n cymryd rhan, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl fod yn "wahoddedigion statudol" ym mhob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn gyffredinol, maent wedi achub ar y cyfle hwnnw yn ddiymdroi ac wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwaith a wneir yn lleol.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Gwnaed cynnydd ar gysoni blaenoriaethau strategol ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn Ne Cymru, mae cysylltiad clir rhwng y blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddau a chynlluniau llesiant. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos diogelwch cymunedol a'r uchelgais i greu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, ond hefyd yn achos y blaenoriaethau hynny sy'n canolbwyntio ar wella iechyd a llesiant. Mae'n thema gyffredin yng nghynlluniau llesiant ac yn adlewyrchu'r ffaith bod "popeth yn gysylltiedig â phopeth arall" a'r angen i ymyrryd yn gynnar a chymryd camau cadarnhaol yn gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sy'n ysgogi ymddygiad troseddol. Bydd y cam nesaf yn y broses o droi geiriau'n weithredoedd a mynd ar drywydd blaenoriaethau yn ein galluogi i gysoni gweithgarwch mewn perthynas â'r economi liw nos, troseddau ieuencid a thrais yn erbyn menywod, merched a phobl ifanc, y mae llawer ohono eisoes yn seiliedig ar ddull o weithio mewn partneriaeth. Unwaith eto, mae'r rhain yn themâu cyffredin mewn sawl cynllun llesiant, fel y dangosir yn y tablau yn Atodiad A.

Cynllun Cysylltu ag Ysgolion

Mae partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r pedwar heddlu wedi arwain at leoli nifer sylweddol o swyddogion yr heddlu mewn ysgolion, sy'n rhywbeth a edmygir yn fawr. Mae'r swyddogion hynny yn trafod amrywiaeth o faterion â disgyblion gan gynnwys camddefnyddio sylweddau. Mae'r trefniadau hyn wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar, gyda mwy o bwyslais ar ymgysylltu â chymuned yr ysgol yn ehangach a sefydlu cysylltiadau â'r tîm plismona lleol. Ers i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd gyhoeddi y gallai cyfran Llywodraeth Cymru o'r arian arwain at sefyllfa lle bydd y prosiect yn dod i ben yn 2019-2020, parheir i drafod y posibilrwydd o gydnabod manteision ehangach y cynllun ac osgoi dod ag ef i ben.

Cymorth i Ddiodefwr

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddau wedi bod yn chwarae rôl flaenllaw i gynorthwyo dioddefwyr, ac maent wedi sefydlu modelau o roi cymorth i ddiodefwr drwy ddefnyddio dull o weithio mewn partneriaeth â darparwyr yn y trydydd sector, yn ogystal â model o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddiodefwr.

Er enghraifft, Cymorth i Ddiodefwr sy'n darparu gwasanaeth Ffocws Dioddefwr De Cymru, sef ein prif wasanaeth i ddiodefwr. Mae'n rhoi cymorth am ddim sy'n gyfrinachol ac sy'n seiliedig ar anghenion i unrhyw un y mae trosedd wedi effeithio arno/arni. Y llynedd, cyfeiriwyd 59,965 o bobl at y gwasanaeth, aseswyd anghenion

12,646 o bobl a rhoddodd ein timau lleol gymorth manwl i 3,721 o bobl. Cafodd pobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth eu helpu i ddeall pa wybodaeth, cyngor a gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a dywedodd y bobl hynny eu bod yn teimlo'n fwy diogel a bod eu hiechyd a'u llesiant wedi gwella. Rydym hefyd yn defnyddio'r Gronfa Gymunedol er mwyn rhoi arian i bartneriaid yn y trydydd sector i gynorthwyo dioddefwyr drwy fentrau arloesol yn y gymuned.

Digwyddiadau mawr a phroffil Cymru

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol wedi cynyddu, drwy ddigwyddiadau megis Uwchgynhadledd NATO, Rownd Derfynol Cwpan Cynghrair Pencampwyr UEFA a gornestau bocsi Joshua yn ddiweddar. Ym mhob achos, mae wedi bod yn angenrheidiol i'r heddlu, y cyngor a Llywodraeth Cymru wneud gwaith cynllunio sylweddol ar y cyd. Mae'n stori lwyddiant, ond mae'r pris wedi bod yn uchel o ran amser yr heddlu – ac mae'r ffaith nad yw'r Swyddfa Gartref yn rhoi "Arian Prifddinas" i gydnabod y baich ar blismona yng Nghymru yn broblem barhaus sy'n golygu bod mwy o alw am fesurau diogelwch a bod rhaglen ddi-dor o ddigwyddiadau mawr.

Economi liw nos

Mae sawl menter wedi sicrhau bod yr economi liw nos yn fwy diogel i bobl yn rhannau gwahanol o Gymru. Yr enghraifft sydd hawsaf ei mesur yw Pwynt Help Abertawe, sef menter gan dîm y Comisiynydd lle mae myfyriwr-wirfoddolwyr a swyddogion meddygol Ambiwlans Sant Ioan yn gofalu am bobl sy'n agored i niwed yn lle dibynnu ar ambiwlansau a thriniaeth yn adrannau argyfwng.

Mewn 12 mis, llwyddodd y fenter i wneud y canlynol:

- Osgoi 1,300 o deithiau ambiwlans
- Osgoi 1,100 o dderbyniadau i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys
- Galluogi swyddogion yr heddlu i ddychwelyd i batrolio'r strydoedd er mwyn cadw'r heddwch ar 1,300 o achlysuron

Mae'n cael ei hariannu ar y cyd gan Heddlu De Cymru, Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae manteision tebyg yn deillio o'r Ganolfan Triniaeth Alcohol yng Nghaerdydd a mentrau eraill.

Drwy weithio gyda'r elusen addysg alcohol Drinkaware, lansiodd y Comisiynydd gynllun newydd i ddiogelu myfyrwyr ac i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol yn yr economi liw nos. Mae "Club Crew" Drinkaware yn gweithio mewn lleoliadau i fyfyrwyr ym mhob un o'r pum prifysgol yn Ne Cymru, ac mae'r aelodau wedi cael hyfforddiant arbenigol ar gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed o ganlyniad i yfed gormod o alcohol. Mae eu cymorth yn golygu bod modd diogelu llawer o fyfyrwyr rhag dioddef trosedd. Ers lansio'r cynllun, mae 520 o unigolion wedi cael eu cefnogi, sydd wedi helpu i gadw ein myfyrwyr yn ddiogel a lleihau'r baich ar wasanaethau rheng flaen. Mae enghreifftiau eraill o waith i gadw myfyrwyr ac unigolion eraill yn ddiogel yn cynnwys:

- Ymgyrch Yfwch Lai, Mwynhewch Fwy
- Bws Diogelwch Myfyrwyr
- Hyfforddiant ar ymdrin â'r rhai sy'n agored i niwed

Troseddau ieuenctid a phobl ifanc

Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn hollbwysig i gynnal cysylltiadau rhwng swyddogion yr heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion, timau troseddau ieuenctid a thimau plismona lleol er mwyn nodi a mynd i'r afael â materion sylfaenol drwy ymyrryd yn gynnar a chymryd camau cadarnhaol yn brydlon. Cynhaliwyd adolygiad o swyddogion yr heddlu sy'n rhan o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ym mis Mawrth 2017, a gweithredwyd ar yr argymhellion yn 2017/18 i ehangu'r hyn y mae'r rôl wedi gallu ei gyflawni hyd yma.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn parhau i gael arian gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, yn ogystal â swyddogion yr heddlu ar secondiad i'r tîm. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dal i fod yn stori lwyddiant, gyda nifer y troseddwyr tro cyntaf sy'n aildroseddu yn parhau i leihau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gan ddefnyddio tystiolaeth o'r ymchwil i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Iechyd Cyhoeddus Cymru a rheolwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, rydym wedi bod yn datblygu ffordd sy'n seiliedig ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod o asesu ac ymyrryd pan gyflawnir trosedd am yr ail dro, yn ogystal â chefnogi dull o reoli achosion uwch a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru.

Mynd i'r afael â throseddu yn y grŵp oedran 18-25

Yn Ne Cymru, mae arian yr heddlu wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu menter sy'n mynd i'r afael â throseddu pan gyflawnir trosedd am y tro cyntaf ac sy'n cynnig llwybr amgen i'r system cyfiawnder troseddol i bobl ifanc. Mae adolygiadau cychwynnol wedi tynnu sylw at fanteision ymyrryd yn gynnar ac atal, ac maent wedi datgelu rhai o'r ffactorau sy'n ysgogi ymddygiad, megis iechyd meddwl, problemau emosiynol/sy'n gysylltiedig â chydberthynas a gorbryder, sydd â chysylltiadau clir â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Trais yn erbyn menywod a merched

Rydym yn parhau i gyflawni ein cynllun Trais yn erbyn Menywod a Merched, yn benodol drwy ariannu'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau megis Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS). Mae hon yn fenter sy'n seiliedig ar iechyd a gynlluniwyd i alluogi meddygon teulu a staff mewn meddygfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i nodi ac ymateb i gleifion sy'n dangos arwyddion y gall cam-drin domestig neu drais fod yn effeithio arnynt. Arweiniodd hyn at atgyfeirio 212 o bobl, ac i 140 ohonynt, hwn oedd y tro cyntaf erioed iddynt siarad â rhywun a oedd yn gallu eu helpu a'u cefnogi. Mae mwy a mwy o atgyfeiriadau yn fodd i gynorthwyo menywod sydd wedi cael eu cam-drin, yn ogystal ag ymyrryd yn gynnar, gan arwain at leihau'r baich ar amrywiaeth o wasanaethau. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf bellach wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal y gwasanaeth, a gobeithio y bydd eraill yn gwneud hynny hefyd. Unwaith eto, mae cefnogaeth i sawl menter ac ymgysylltu'n agos drwy blismona trefniadau diogelu'r cyhoedd ar y cyd â chynghorau a phartneriaid eraill o ddydd i ddydd.

Troseddau menywod

Mae heddluoedd Cymru wedi dod ynghyd ac wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a phartneriaid eraill er mwyn datblygu

gwasanaeth ymyrryd i ymateb yn gyflym pan fydd menyw yn dechrau troseddu. Yr enw a roddir ar y gwasanaeth hwn yw'r Cynllun Braenaru i Fenywod, a bydd yn nodi'r cefndir a'r heriau a allai arwain at droseddu eto, yn ogystal â materion cysylltiedig megis gofal plant a diogelu. Mae hyn wedi cael ei gydnabod y tu allan i Gymru, ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n penderfynu ar gamau nesaf datblygiad sylweddol i Gymru.

Tai – Ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn agored i niwed

Mae rhaglen i weithio 'gyda' sefydliadau a thenantiaid, a galluogi landlordiaid cymdeithasol i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thenantiaid sy'n agored i niwed yn effeithiol, wedi cael ei chomisiynu drwy 'Gronfa Atal Digartrefedd' Llywodraeth Cymru. Mae Bonnie Navarra, Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu De Cymru, a thîm o chwe secondeion o'r sector tai yn arwain y gwaith gyda chymorth prosiect gan y Prif Arolygydd.

O safbwynt plismona, mae'n bwysig atal mân broblemau yn y gymdogaeth rhag gwaethygu a dod yn broblem plismona. Nid yw nifer o'r adnoddau papur blaenorol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru (ers 2004) i wella safonau drwy'r sector tai wedi cael yr effaith a fwriadwyd. Felly, bydd arbenigwyr yn cyflwyno model 'Hwyluso Hunanasesu' yn fewnol. Mae'n cael ei dreialu yn Trivallis (Cartrefi RCT) a thai Cyngor Caerdydd, a chaiff gwerthusiad annibynnol ei gyflwyno i'r Gweinidog, Rebecca Evans, erbyn diwedd mis Mai.

Treial rhannu gwybodaeth

Mae treial rhwng yr heddlu a chartrefi Trivallis wedi datblygu ateb arloesol i'r broblem o rannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r sector tai, gan ddangos sut y gellir nodi pobl sy'n agored i niwed yn well er mwyn ymyrryd cyn gynted â phosibl ac atal problemau rhag gwaethygu. Mae hanner cartrefi landlordiaid cymdeithasol bellach ar system yr heddlu, NICHE, sy'n ei gwneud yn bosibl gweithio'n agosach gyda'r sector tai.

Heriau newydd, gan gynnwys seiberdroseddu

Mae'n rhaid i'r heddlu ymateb i ofynion newydd drwy'r amser, yn benodol natur newidiol terfysgaeth ac eithafiaeth a bygythiad seiberdroseddu wrth i bobl fyw bywyd yn gynyddol ar-lein. Mae'n heriol datblygu'r sgiliau digidol angenrheidiol fel rhan o hyfforddiant yr heddlu tra'n canolbwyntio'n glir ar waith fforensig digidol, seiberdroseddu a dadansoddi data, fel modiwl penodol ac fel rhan o hyfforddiant arall sy'n bodoli eisoes. Mae angen gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod seiberdroseddu yn gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i heddluoedd, cwmnïau a chyrrff cyhoeddus eraill.

Materion eraill

Mae'r papur hwn wedi tynnu sylw at sawl maes polisi cyhoeddus lle mae plismona yng Nghymru wedi cyfrannu'n sylweddol at waith partneriaeth. Byddai enghreifftiau eraill o "werth ychwanegol" yn cynnwys Gwirfoddolwyr Ieuentid yr Heddlu (Cadetiaid) sydd wedi cael eu datblygu dros y blynyddoedd diwethaf ac sy'n parhau i ehangu. Felly, nid yw'r papur hwn yn cynnwys popeth, ac mae'r heddlu yn gweithio gyda phartneriaid mewn llawer o feysydd gwaith sylfaenol ac o dan amgylchiadau heriol gwahanol er mwyn atal niwed ac ymateb i bobl sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys pobl ar goll, mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern – ac mae'r profiadau niweidiol yn ystod plentyndod y

cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn uniongyrchol berthnasol i lawer o'r gwaith beunyddiol hwn. Mae digonedd o bartneriaethau gweithredol a threfniadau cydweithio ar waith hefyd, a bydd partneriaid yn gyfarwydd â nhw.

Diben y papur hwn yw tynnu sylw at rai o'r mentrau amrywiol a'r cyfraniadau a wneir drwy waith Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabiliaid a'u gwahanol dimau at lesiant yng Nghymru ac at waith amrywiaeth o bartneriaid, yn benodol ym maes llywodraeth leol a gwasanaethau iechyd, sy'n ychwanegol at "hanfodion" plismona – diogelu'r cyhoedd, ymchwilio i droseddau, trefn gyhoeddus, gwaith plismona yn y gymdogaeth gyda gwasanaethau goleuadau glas eraill a'r gweddill.

CAM GWEITHREDU

Gofynnir i aelodau'r Cyngor Partneriaeth nodi'r cyfraniad y mae plismona yng Nghymru yn ei wneud at waith partneriaeth yn lleol ac at lesiant cyffredinol pobl yng Nghymru.

Y Gwir Anrh Alun Michael

(Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, sy'n cynrychioli pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cymru)

23 Ebrill 2018

Atodiad A – Tynnu sylw at enghreifftiau o ymgysylltu

Uchafbwyntiau Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Enw'r Bartneriaeth Leol	Crynodeb
Canolfan Ymyrryd yn Gynnar Sir y Fflint	Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Cynnig cymaint o wybodaeth â phosibl a dadansoddi cudd-wybodaeth a gwybodaeth ar draws y bartneriaeth amlasiantaethol i sicrhau bod pob plentyn, person ifanc a theulu wedi cael cyngor a gwybodaeth am gymorth cynnar perthnasol er mwyn meithrin sgiliau ymdopi a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cyn iddynt ddechrau ymwreiddio
Rheoli Risg – Oedolion Agored i Niwed	Fframwaith yn gofyn i'r maes iechyd a'r heddlu gydgysylltu gwaith o asesu a rheoli risg i'r defnyddwyr gwasanaethau hynny y gall eu hymddygiad fod yn risg uchel a'u gwneud yn llai agored i niwed
Timau Gweithredu Lleol ar iechyd meddwl ond hefyd unigolion caotig	Mae Timau Gweithredu Lleol yn cyflawni strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' Gogledd Cymru. Y Timau Gweithredu Lleol hyn fydd yn gyfrifol am weithredu strategaeth iechyd meddwl Gogledd Cymru yn eu hardal; ond gallant gyfuno eu hadnoddau a'u cyfrifoldebau ar draws meysydd ehangach drwy gytundeb lleol. Y flaenoriaeth y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn gyntaf yw sicrhau bod system gofal brys effeithiol ar gael i bobl mewn argyfwng iechyd meddwl aciwt.
WEDFAN (Rhwydwaith Ymwelwyr Mynych Adrannau Argyfwng Cymru)	Ymateb mewn ffordd integredig i'r rhai sy'n ymweld ag adrannau argyfwng a mân anafiadau yn fynych.

Uchafbwyntiau Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

1. Fy swyddfa ac uwch swyddogion o Heddlu Gwent yn bresennol yn rheolaidd ym mhob un o bum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.
2. Cydweithredu â phob un o'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau diogelwch yn y gymuned drwy Gwent Mwy Diogel.
3. Gweithio gyda phartneriaid allweddol megis Cyngor Dinas Casnewydd, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cartrefi Dinas Casnewydd ac ystod o sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cyfundrefnol yng nghanol Casnewydd.
4. Cynlluniau gwrthdynciadol ar y cyd â phartneriaid megis Dyfodol Cadarnhaol a Chynlluniau Braenaru i Fenywod.
5. Gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith er mwyn datblygu cynllun "Heddlu Bach" i helpu i ddatblygu dinasyddiaeth dda.

6. Datblygu gweithwyr iechedd meddwl proffesiynol yn Ystafell Reoli'r Heddlu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
7. Gweithio gyda phob sefydliad yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a grwpiau cymunedol/ffydd eraill i godi ymwybyddiaeth o fasnachu pobl a chaethwasiaeth fodern.

Engbreiffiau o themâu/amcanion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled De Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos y cysylltiadau strategol, yn enwedig o ran diogelu'r gymuned, yng nghynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled De Cymru.

Ardal Awdurdod Lleol	Amcanion/Themâu Llesiant
Pen-y-bont ar Ogwr	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dechrau gorau mewn bywyd ▪ Helpu cymunedau ym Mhen-y-bont-ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydllynol ▪ Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd ▪ Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo ▪ Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus ▪ Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel ▪ Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach ▪ Mae pobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu llawn botensial ▪ Mae Caerdydd yn lân a chynaliadwy
Castell-nedd Port Talbot	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant mewn perygl o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod ▪ Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn ▪ Annog heneiddio'n dda ▪ Hyrwyddo lles drwy'r gweithle
Cwm Taf (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful)	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Hyrwyddo cymunedau diogel, cadarn a ffyniannus i wella llesiant trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar asedau ein cymunedau ▪ Helpu pobl i fyw bywyd hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau ▪ Magu economi leol, gydnherth, â seilwaith sy'n denu pobl i fyw, i weithio ac i chwarae yn ardal Cwm Taf
Abertawe	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod ▪ Mae pobl yn byw ac yn heneiddio'n dda ▪ Gweithio gyda natur ▪ Meithrin cymunedau cryfach
Bro Morgannwg	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Galluogi pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol a llywio gwasanaethau lleol ▪ Lleihau tloedi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd ▪ Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant ▪ Diogelu, gwella a gwerthfawrogi'r amgylchedd